# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar HMP/YOI Parc

## Am y flwyddyn adrodd
## 1 Ebrill 2023 tan 30 Medi 2024

**Cyhoeddwyd Mai 2025**

# Cynnwys


| **Adrannau rhagarweiniol 1 – 3** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Rôl statudol yr IMB | 3 |
| 2. | Disgrifiad o'r sefydliad | 4 |
| 3. | Pwyntiau allweddol | 5 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 10 |
| 5. | Triniaeth deg a thrugarog | 12 |
| 6. | Iechyd a lles | 14 |
| 7. | Cynnydd ac adsefydlu | 16 |
| **Gwaith yr IMB** | | |
| Ystadegau'r Bwrdd | | 17 |
| Ceisiadau i'r IMB | | 17 |


**Cynoeddir pob adroddiad blynyddol yr IMB ar <u>www.imb.org.uk</u>**

# Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol yr IMB

O dan Ddeddf Carchardai 1952, rhaid i bob carchar gael ei fonitro gan fwrdd annibynnol wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o blith aelodau o'r gymuned y mae'r carchar wedi'i leoli ynddi.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol a gytunwyd â gweinidogion, rhaid i'r Bwrdd:

- bodloni ei hun bod y rhai a gedwir dan glo yn ei garchar yn cael eu trin yn drugarog a chyfiawn a bod ystod o raglenni digonol ar gael i'w paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau
- rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y cafodd awdurdod ei ddirprwyo iddynt fel y gwêl y Bwrdd yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol am ba mor dda y mae'r carchar wedi cwrdd â'r safonau a'r gofynion sy'n ofynnol iddo eu cwrdd, a'u heffaith ar y carcharorion.

Fel bo'r Bwrdd yn gallu cyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, a hefyd at gofnodion y carchar.

Mae Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosbi Creulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) o fath arall yn gytundeb hawliau dynol rhyngwladol i'r pwrpas o gryfhau'r warchodaeth i bobl a gollodd eu rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod y bobl hyn yn arbennig o fregus a'i nod yw eu hatal rhag cael eu cam-drin drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygiadau o bob safle dan glo. O dan OPCAT, mae'n ofynnol i bob gwlad ddynodi Trefniadau Atal Cenedlaethol o ymweld â safleoedd dan glo, i fonitro'r amodau a sut y mae'r carcharorion yn cael eu trin ac i wneud argymhellion ar gyfer atal camdriniaeth. Mae'r IMB yn rhan o Drefniadau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad

Agorodd Carchar Ei Mawrhydi (HMP) Parc, yr unig garchar preifat yng Nghymru, yn 1997 ac mae'n cael ei redeg gan G4S ar ran Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS). Mae'n dal bron i 2,000 o garcharorion, gan gynnwys troseddwyr ifanc. Mae'r carchar wrth ymyl Pen-y-bont ar Ogwr, gyda chysylltiadau ffyrdd a rheilffordd da ac yn recriwtio llawer o'i staff yn lleol.

Mae'r sefydliad troseddwyr ifanc (YOI) wedi'i ddynodi ar gyfer bechgyn rhwng 15 a 17 oed. Mae'r YOI yn rhan o gomplecs mwy carchar y Parc a gall dderbyn hyd at 46 o unigolion ar draws dwy uned wahanol. Dros y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd, roedd rhwng 31 a 33[1] o blant yn yr YOI – roedd nifer fach ohonynt dros 18 oed ac yn aros yn yr YOI oherwydd pwysau poblogaeth yn yr ystâd oedolion.

### Capasiti a llety

Mae gan HMP/YOI Parc lety ardystiedig arferol ar gyfer 1,699 o oedolion ac oedolion ifanc, i atal gorlenwi. Mae ei gapasiti gweithredol presennol (y nifer fwyaf o garcharorion y gellir eu cadw yno heb risg ddifrifol i drefn a diogelwch eiddo a phobl ac i sicrhau bod y carchar yn cael ei redeg yn iawn) yn 1,599, sy'n cynnwys 40 o bobl ifanc. Gall bloc yr uned carcharorion bregus dderbyn 387 o garcharorion er mai 325 yw ei gapasiti gweithredol.

### Rheolaeth a goruchwylio

Mae HMP/YOI Parc yn cael ei redeg gan G4S Justice Services ar ran HMPPS. Un o reolyddion HMPPS a'u tîm sy'n rhedeg y contract rhwng y Gwasanaeth Carchardai a G4S, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr (Cymru). Mae Cyfarwyddwr y carchar, a gyflogir gan G4S, yr un fath â Llywodraethwr mewn sefydliad cyhoeddus. Yn Rhagfyr 2022, enillodd G4S gontract 10 mlynedd i redeg HMP/YOI Parc.

### Gofal iechyd ac addysg

Mae'r gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae G4S yn comisiynu gwasanaethau seicolegol i oedolion HMP Parc drwy gwmni preifat FPC (Forensic Psychology UK) Limited; mae'r darparwr ar gyfer YOI Parc yn rhan o Wasanaethau Ieuenctid yn y Ddalfa HMPPS.

Ar ôl cael eu darparu gan G4S yn flaenorol, cymerwyd y gwasanaethau addysg drosodd gan Novus Gower yn Rhagfyr 2022 i ddarparu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gan gydweithio â Choleg Gŵyr, Abertawe, i ddarparu cymorth monitro o ansawdd uchel.

### Gwasanaethau ychwanegol a phartneriaethau

Mae'r gwasanaethau llyfrgell yn cael eu darparu gan Greenwich Leisure Limited a'r ganolfan ymwelwyr yn cael ei staffio gan y tîm **Invisible Walls Family Services**, sy'n rhan o strategaeth cefnogi teuluoedd y carchar. Mae'r swyddi allweddol yn cynnwys yr **Uwch-Reolwr Gwasanaethau Teulu** a'r **Rheolwr Plant, Teuluoedd ac Ymweliadau**. Y nod oedd cynnig amgylchedd croesawus i ymwelwyr a chefnogi cysylltiadau teuluol ac mae'r Bwrdd yn nodi bod hyn i'w weld i fod yn cael ei wneud.

[1] Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn wybodaeth reoli leol gan adlewyrchu sefyllfa'r carchar / YOI dros y cyfnod adrodd – gallent newid ar ôl dilysu pellach ac efallai na fyddant yn cyd-fynd bob tro ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddir nes ymlaen gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## 3. Pwyntiau allweddol

### Gwybodaeth gefndir

Yn ystod y flwyddyn adrodd, aeth aelodaeth y Bwrdd i lawr i ddau allan o aelodaeth o 17, gan gyflwyno trafferthion sylweddol i'r gwaith o fonitro carchar Categori B mawr yn effeithiol.[2] I liniaru'r problemau hyn, penderfynodd y Bwrdd ganolbwyntio ar y pedwar maes allweddol yn adran 3.1 isod drwy:

- Ymgysylltu â chymaint o garcharorion â phosib
- Arsylw / monitro canlyniadau carcharorion
- Edrych ar themâu a thueddiadau newydd
- Siarad â'r staff.

Er mwyn symud ymlaen, mae'r Bwrdd presennol wedi rhoi blaenoriaeth i recriwtio sy'n mynd rhagddo ac mae'r Bwrdd ar darged i gyrraedd saith aelod erbyn Ebrill 2025. I ddarparu ar gyfer hyn, bydd angen cymorth hyfforddiant a mentora sylweddol gan Fyrddau eraill.

### 3.1 Prif ddarganfyddiadau

**Mae Parc yn garchar adsefydlu Categori C mawr ar gyfer oedolion a throseddwyr ifanc gwrywaidd, a rhai a gafwyd yn euog ac sydd ar remand am droseddau rhywiol.** Mae'n garchar diogelwch uchel i rai sy'n cyflwyno risg sylweddol i'r cyhoedd ond heb fod angen y lefel ddiogelwch uchaf. Mae'n golygu felly er nad ydy'r carcharorion yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer carchar agored, nad ydynt yn cael eu dosbarthu fel y troseddwyr mwyaf peryglus, ac **o gael ei feincnodi, mae perfformiad Parc ym mhedwar maes allweddol yr adroddiad hwn yn gymharol â charchardai Categori C mawr eraill, er ei fod hefyd yn dal canran o garcharorion Categori B.** Fel sydd wedi'i adrodd yn eang yn y cyfryngau, roedd chwe mis cyntaf 2024 yn codi pryderon difrifol o ran trais a marwolaethau dan glo. Mae'r tîm rheoli, dan arweiniad y Cyfarwyddwr newydd, yn gweithio'n galed i ddelio â'r problemau hyn. Ym marn y Bwrdd, maen nhw wedi dechrau gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i wella diogelwch a chadernid y carchar. Mae'r Bwrdd yn nodi'r awydd i godi uwchlaw'r norm, ac er ei bod yn rhy fuan i ddarogan unrhyw lwyddiant, y duedd gyffredinol hyd at Fedi 2024 oedd llai o drais a hunan-niwed.

### Diogelwch

- Mae'n bryder bod 19 o farwolaethau wedi bod yn HMP Parc dros y cyfnod adrodd, wele'r dadansoddiad yn adran 4.2.
- Rhwng Chwefror 27 a Mawrth 19 2024, bu farw 6 o garcharorion a chredir bod 4 o'r rhain yn gysylltiedig â chyffuriau.

### Triniaeth deg a thrugarog

- Nid oedd carcharorion yn cwyno'n aml am eu llety ond roedd cwynion am fwyd yn gyson gyda sylwadau ar ansawdd y bwyd a faint ohono oedd ar gael.
- Ni dderbyniodd y Bwrdd unrhyw Geisiadau (sylwadau ysgrifenedig gan garcharorion i'r IMB) am faterion cydraddoldeb dros y cyfnod adrodd.
- Roedd nifer y gweithwyr allweddol yn dal i fod yn is na'r hyn sy'n ofynnol a charcharorion felly'n cwyno am y diffyg cyswllt.
- Roedd problemau gyda throsglwyddo rhwng carchardai wrth i garcharorion gael eu cludo heb eu heiddo, er enghraifft, neu ddim yn cael amser i gael eu heiddo at ei gilydd.

[2] Mae cyfnod hwn yr adroddiad yn ymwneud â'r amser cyn cyfansoddiad presennol yr IMB yn Parc.

Roedd nifer o achosion pryd y methodd carchardai eraill ag ymateb i gwynion carcharorion.

**Iechyd a lles**

- Roedd problemau gyda darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn Parc, yn enwedig gydag asesiadau ADHD.
- Roedd amseroedd aros am apwyntiadau meddyg teulu'n rhy hir dros y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd.
- Nid oedd digon o staff nyrsio.
- Roedd amseroedd aros ar ôl gwneud cais i'r GIG am ambiwlans brys yn aml yn rhy hir.

**Cynnydd ac adsefydlu**

Roedd diwydiannau yn HMP Parc yn parhau i gynnig gwahanol gyfleoedd gwaith mewn meysydd fel:

- Gwaith saer coed a gosod brics
- Gwaith mecanyddol a chydosod
- Glanhau, gan ddarparu cymwysterau cydnabyddedig
- Siop trwsio beics yn cyflenwi beics i blant ysgol, unigolion gyda heriau cludiant, a ffoaduriaid.

Fodd bynnag, roedd rhai adegau drwy'r flwyddyn pan oedd cyfyngiadau'r gyfundrefn yn cyfyngu ar yr addysg.

Roedd **Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) Parc** yn parhau i ddarparu rhai o'r canlyniadau gorau o blith holl sefydliadau YOI Cymru a Lloegr ac yn ymddangos i osod meincnod ar gyfer **mesur sefydliadau YOI eraill.** Fodd bynnag, roedd y Bwrdd wedi nodi rhai meysydd pryder dros y cyfnod adrodd.

**Agweddau cadarnhaol yr YOI:**

- Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod diwylliant gofalgar a chadarnhaol yr YOI yn parhau a staff yn gweithio'n galed i greu perthnasoedd cefnogol â'r troseddwyr ifanc. Mae llawer wedi cael eu cam-drin yn emosiynol, corfforol neu'n rhywiol, wedi eu hesgeuluso a phrofi trais, sy'n gallu effeithio ar eu hymddygiad a'u penderfyniadau.
- Mae'n ymddangos bod y canlyniadau diogelwch ac adsefydlu'n parhau i fod yn dda ar y cyfan.
- Roedd bechgyn yn ymddangos i fod yn cael eu trin yn ofalgar ac ystyriol o'r dechrau a'r rhan fwyaf o broblemau'n cael eu datrys yn anffurfiol.
- Roedd y diwylliant cefnogol a ddisgrifiwyd mewn adroddiadau blaenorol yn parhau er y cyfnodau o drosglwyddo i arweinwyr newydd.
- Roedd plant a wahanir yn cael eu cymell i fyw gyda'i gilydd fel un gymuned.
- Roedd nifer y plant a wahanir oddi wrth eu cyfoedion, a hyd y cyfnod gwahanu ar gyfartaledd, wedi lleihau dros y cyfnod adrodd.
- Roedd yr addysg wedi gwella ers y cyfnod adrodd blaenorol ond roedd lle i wella o hyd.
- Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i ddylunio i helpu plant i ennill y sgiliau cymdeithasu sylfaenol sydd ei angen yn y gweithle.
- Roedd mwy o gymorth a blaenoriaeth yn cael ei roi i faterion amrywiaeth a chynhwysiant (D&I) oedd wedi'i gysylltu i gynnal cyswllt gwell â'r safle oedolion dros y cyfnod adrodd.

- Roedd plant yn gallu codi pryderon â swyddogion D&I, a chynrychiolwyr plant wedi eu penodi.

- Cynhaliwyd digwyddiadau misol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wahanol nodweddion a warchodir.

**Meysydd pryder yn yr YOI:**

- Yn gyffredin â gweddill yr ystâd YOI, mae'n ymddangos bod lefelau trais yn parhau i amrywio, gyda chynnydd yn Ebrill, Mai a Mehefin 2024.
- Yn gynnar yn y flwyddyn, roedd pryderon bod ansawdd yr addysg a gweithgareddau bwriadus wedi dirywio (sgoriwyd yn dda o'r blaen), ond ymddengys bod hyn wedi'i gywiro dros y cyfnod adrodd.

### 3.2 Y prif feysydd sydd angen gwella

***I'R GWEINIDOG***

Fel y disgrifiwyd y llynedd, er gwaethaf ymdrechion rheolwyr a staff yn Parc a phob carchar arall yng Nghymru i gefnogi carcharorion gyda dedfrydau Carcharu er Diogelu'r Cyhoedd (IPP), mae ansicrwydd eu dyddiad rhyddhau'n creu gorbryder ac yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u cynnydd. Wedi dweud hynny, mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r heriau gyda diogelu'r cyhoedd a goruchwylio trwyddedau.

***I'R GWASANAETH CARCHARDAI***

Fel y soniwyd yn Adroddiadau Blynyddol sawl Bwrdd a gan Fwrdd y Parc y llynedd, mae angen parhau i fonitro a sicrhau bod Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion yn cael ei ddilyn i sicrhau bod eiddo carcharorion yn cael ei drosglwyddo gyda nhw. Problemau eiddo yw testun y nifer fwyaf o Geisiadau gan garcharorion i'r IMB yn Parc o hyd, gyda'r rhan fwyaf yn ymwneud â throsglwyddo o garchardai eraill.

***I'R CYFARWYDDWR***

Fel y nodwn drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r Cyfarwyddwr newydd wedi adnabod ac y ngweithredu mesurau manwl i wella'r sefyllfa yn Parc. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw beth i'w ychwanegu at ei restr amcanion a bydd ein hymdrechion dros y cyfnod nesaf yn cynnwys monitro:

- Diogelwch carcharorion
- Polisi dim goddef tuag at gyffuriau anghyfreithlon ynghyd â chymorth i leihau'r galw
- Y mesurau diogelwch mwy llym i atal unrhyw fath o gontraband rhag dod i mewn i'r carchar
- Hyfforddiant a chymorth i staff
- Llwyddiant y carchar ag ymdrechion i gryfhau cysylltiadau â chwmnïau allanol i gynnig cyfleoedd gwaith er mwyn lleihau aildroseddu.

### 3.3 Ymateb i'r adroddiad diwethaf

| Problem a godwyd | Ymateb |
|---|---|
| **I'r Gweinidog** | |
| Er ymdrechion rheolwyr a staff yn Parc i gefnogi carcharorion gyda dedfrydau Carcharu er Diogelu'r Cyhoedd (IPP), mae ansicrwydd eu dyddiad rhyddhau'n creu gorbryder ac yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl. Anogwn y Llywodraeth i gyflwyno proses ar gyfer adolygu dedfrydau carcharorion IPP, gan gyflwyno un ddedfryd a fyddai'n rhoi eglurder i garcharorion o ran pryd y byddent yn cael eu rhyddhau. | Mae'r Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024, wedi diwygio'r ddedfryd IPP. Dechreuwyd gweithredu'r newidiadau ar 1 Tachwedd 2024 gyda thrwyddedau 1,742 o unigolion oedd wedi bod ar drwydded IPP am 5 mlynedd o leiaf (neu 4 blynedd i rai dan 18 oed) ac wedi treulio 2 flynedd heb gael eu galw'n ôl i garchar, yn cael eu terfynu'n awtomatig. O'r 1 Chwefror 2025 ymlaen, bydd y cyfnod cymhwyso ar gyfer cyfeirio trwyddedau IPP at y Bwrdd Parôl i ystyried terfynu'n lleihau i 3 blynedd (neu 2 flynedd i rai dan 18), gan effeithio ar tua 600 o achosion.<br>Mae'r Cynllun newydd yn pwysleisio bod angen i garchardai a'r Gwasanaeth Prawf wella eu gwasanaethau rheng flaen, sicrhau bod gan rai ar ddedfrydau IPP (Carcharu er Diogelu'r Cyhoedd) gynlluniau dedfrydu effeithiol, mynediad at ymyriadau priodol a gwasanaethau i leihau eu risg er mwyn eu rhyddhau'n ddiogel. Mae'n osgoi ail-ddedfrydu oherwydd pryderon diogelu'r cyhoedd gan y byddai llawer yn cael eu rhyddhau heb oruchwyliaeth trwydded er gwaethaf argymhellion blaenorol y Bwrdd Parôl i garcharu. Bydd cynnydd y Cynllun yn cael ei fonitro gyda mewnbwn gan arbenigwyr a grwpiau ymgyrchu, a blaenoriaeth i ddiogelu'r cyhoedd. |
| **I'r Gwasanaeth Carchardai** | |
| Mae angen monitro a sicrhau bod Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion yn cael ei ddilyn i sicrhau bod eiddo carcharorion yn cael ei drosglwyddo gyda nhw bob tro. | Rhaid i garcharorion gydymffurfio â'r uchafswm rheoli maint ar gyfer eiddo i sicrhau bod eu heiddo, ynghyd ag eitemau eithriedig fel papurau cyfreithiol, yn trosglwyddo gyda nhw. O dan y Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion, rhaid i Lywodraethwyr a Chyfarwyddwyr oruchwylio bod eiddo carcharorion yn cael ei drin yn iawn, gan gynnwys eitemau dros y gofynion maint, sy'n rhaid eu trosglwyddo o fewn 4 wythnos bellach. Mae HMP/YOI Parc yn wynebu heriau o ran prinder lle storio a chynnydd yn y boblogaeth, ond mae mesurau fel |

| | |
|---|---|
| | defnyddio cyfleusterau HMPPS Branston a chanllawiau ar reoli maint wedi gwella'r sefyllfa. Mae HMPPS yn cydnabod y pryderon am eiddo ond ni all drosglwyddo'r holl eiddo gan garcharorion sydd dros y gofynion maint ac yn chwilio am atebion pellach. |

| | |
|---|---|
| | |
| Cytuno ar isafswm gwariant i bob carcharor i sicrhau bod y bwyd a gyflenwir yn ddigonol o ran maint, ansawdd a maeth i fodloni anghenion calorïau'r carcharorion, oherwydd mae'n afresymol bod yn rhaid i garcharorion brynu bwyd o ffreutur y carchar i gael digon o fwyd. | Mae carchardai cyhoeddus a phreifat yn cydymffurfio â Chyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai 44/2010 ar gwrdd ag anghenion maeth carcharorion. |
| **I'r Cyfarwyddwr** | |
| Cyflwyno proses lle y byddai bwyd carcharorion yn cael ei asesu'n rheolaidd o ran ei werth maeth, cynnwys calorïau, ansawdd a maint. | Yn HMP/YOI Parc, mae prydau bwyd yn gyson â'r polisi hwn a'r gyllideb arlwyo genedlaethol. Mae adborth gan y cyngor carcharorion wedi arwain at adolygu bwydlenni, ansawdd a maint y prydau. Mae problemau gyda chyfarpar y gegin wedi cael sylw gan wella ansawdd y bwyd a'i ddarparu. Cyflwynwyd mesurau fel nosweithiau prydau themâu rhyngwladol a rhewgelloedd ar gyfer pwdinau oer ynghyd ag ymdrechion i leihau gwastraff bwyd er mwyn ail-fuddsoddi'r arbedion yn y fwydlen. |
| | |

# Adrannau tystiolaeth 4-7

## 4. Diogelwch

### 4.1 Derbyn a chynefino

Dros y cyfnod adrodd, mae'r ardal dderbyn wedi cyflwyno mesurau diogelwch uwch i ddod o hyd i gontraband a sicrhau diogelwch y staff a'r carcharorion.

Er enghraifft:

- **Hyfforddiant staff:** Rhoddwyd hyfforddiant ychwanegol i staff derbyn er mwyn delio â bygythiadau newydd a gallu rheoli carcharorion newydd yn well.
- **Cymorth:** Gwnaed ymdrechion i roi cymorth gwell i garcharorion yn ystod y broses dderbyn, gan gynnwys asesiadau iechyd meddwl.
- **Cyfleusterau:** Mae'r ardal dderbyn wedi cael ei hadnewyddu i greu amgylchedd mwy croesawus ac effeithlon i garcharorion a staff fel ei gilydd.

Noda'r Bwrdd y gofynnir i garcharorion wrth gyrraedd a ydynt yn cario eitemau anghyfreithlon, a'u bod yn cael eu sganio a'u chwilio. Gan ddibynnu ar beth sy'n cael ei ddarganfod, mae carcharorion sy'n cuddio unrhyw beth yn cael eu gwahanu.

Noda'r IMB hefyd fod carcharorion yn cael eu trin yn barchus a chwrtais, yn derbyn gwybodaeth gynefino sylfaenol ac yn cyfarfod ag aelod o'r tîm gofal iechyd a Gwrandäwr.

### 4.2 Hunan-laddiad a hunan-niwed, marwolaethau yn y carchar

Mae HMP Parc wedi wynebu lefelau uchel o hunan-niwed cymharol â charchardai Categori B mawr eraill.

Dros gyfnod yr adroddiad, cofnodwyd nifer o farwolaethau yn y carchar gan gynnwys:

- 11 marwolaeth o achosion naturiol i bob golwg, nifer o'r rhain yn garcharorion hŷn yn yr adain gofal lliniarol
- 3 marwolaeth drwy hunanladdiad i bob golwg
- 5 marwolaeth y credir i fod yn gysylltiedig â chyffuriau.

Yn unol ag ymarfer arferol, mae'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn ymchwilio i bob marwolaeth.

Yn 2024 gwelodd Dde Cymru dwf sylweddol mewn mewnforio a defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, ac yn anffodus effeithiodd hyn ar HMP Parc. Daeth contraband i mewn i'r carchar ar gefn drôns, drwy ymwelwyr a staff llwgr. **Ers Mehefin 2024, noda'r Bwrdd fod y carchar wedi cynyddu ei fesurau i fynd i'r afael â smyglo cyffuriau i mewn i'r carchar** ac mae'r mesurau hyn yn ymddangos i fod yn gwella canlyniadau. Maen nhw'n cynnwys:

- Chwilio ymwelwyr a staff sy'n dod i mewn i'r carchar yn fwy manwl.
- Dim marwolaethau ychwanegol o achos cyffuriau hyd at ddiwedd y cyfnod adrodd (Medi 2024).
- Gweithio gyda Heddlu De Cymru a HMPPS i ddelio ac ymchwilio i'r problemau hyn.
- Atal nifer o staff dros dro.

O ganlyniad mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn darganfod cyffuriau anghyfreithlon ac offer wedi'i atafaelu.

Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, agorwyd 1,125 o ddogfennau asesiad, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), y broses a ddefnyddir i gefnogi carcharorion sy'n cael eu hadnabod i fod â risg o hunan-niwed neu hunanladdiad. Roedd y rhai a welodd y Bwrdd yn ymddangos i fod wedi cael eu cwblhau'n gywir.

Dros yr un cyfnod, cofnodwyd 2,325 digwyddiad o hunan-niwed, rhai gan hunan-niweidwyr cyson, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

| Blwyddyn | Achosion o hunan-niwed |
|---|---|
| Ebrill 2022 – Mawrth 2023 | 1,080 |
| Ebrill 2023 – Mawrth 2024 | 2,325 |

### 4.3 Trais a lleihau trais, hunan-ynysu

Yn gynharach yn y cyfnod adrodd hwn, effeithiodd prinder staff a throsiant staff uchel ar ymdrechion y carchar i gadw rheolaeth effeithiol, gyda mwy o drais wrth i amser allan o'r gell gynyddu. Er i gyfyngiadau Covid-19 gael effaith barhaol ar iechyd meddwl ac ymddygiad y carcharorion i bob golwg, gallai'r trais yn 2023/24 fod oherwydd cyfuniad o ffactorau gan gynnwys ôl-effaith y pandemig a heriau parhaus yn y carchar.

| Blwyddyn | Achosion o drais |
|---|---|
| Ebrill 2022 – Mawrth 2023 | 453 |
| Ebrill 2023 – Mawrth 2024 | 761 |

### 4.4 Defnyddio grym

Roedd y prif resymau dros ddefnyddio grym yn cael eu priodoli i ymosod / cwffio a diffyg cydymffurfio, ond deallwn ei fod hefyd wedi'i ddefnyddio i atal hunan-niwed. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn poeni am y cynnydd mewn defnyddio grym a bydd yn monitro hyn gyda diddordeb.

| Blwyddyn | Achosion o ddefnyddio grym |
|---|---|
| Ebrill 2022 – Mawrth 2023 | 1,076 |
| Ebrill 2023 – Mawrth 2024 | 1,338 |

### 4.5 Atal eitemau anghyfreithlon

Fel y trafodwn yn adran 4.2, mae'r carchar wedi gwella ei fesurau diogelwch i ganfod contraband, gan gynnwys cyffuriau a ffonau symudol, drwy ddefnyddio dyfeisiau sganio am eiddo a phost yn dod i mewn, a hefyd wrth dderbyn carcharorion, ynghyd â hap-chwilio amlach gan staff.

Mae staff rheng flaen wedi derbyn hyfforddiant gwell i ddelio â bygythiadau newydd er enghraifft opioidau synthetig fel Nitazines.

O gofio problemau carchar y Parc gyda defnyddio a pha mor gyffredin yw cyffuriau anghyfreithlon, bydd gallu'r carchar i leihau mynediad at y sylweddau hyn yn faes diddordeb pwysig i'r Bwrdd yn 2025.

# 5. Triniaeth deg a thrugarog

## 5.1 Llety, dillad a bwyd

Ar ddechrau'r cyfnod adrodd roedd llety carchar y Parc yn parhau i fod yn brofiad cymysg. Mae gan y carchar amrywiaeth o unedau preswyl gyda chelloedd sengl a dwbl yn cynnwys cyfleusterau sylfaenol fel gwelyau, lle storio personol a chyfleusterau toiled / ymolchi. Roedd heriau oherwydd gorlenwi, oedd yn effeithio ar amodau byw'n gyffredinol. Roedd staff yn gwneud ymdrechion i gynnal iechyd a lles er y nifer uchel o garcharorion.

Mae gwaith cywiro ar y gweill a'r tîm cynnal a chadw'n parhau i weithredu'r rhaglen dreigl gan roi blaenoriaeth i anghenion celloedd unigol. Mae llawer o ffenestri ar yr adeiniau'n cael eu hadnewyddu, yn rhannol fel rhan o'r gwaith uwchraddio neu i atal drôns yn cludo contraband.

Yn 2024, roedd y ddarpariaeth fwyd yn HMP Parc yn parhau i amrywio. Roedd y carchar yn ceisio cynnig prydau cytbwys a maethlon er bod heriau'n gysylltiedig â phrinder cyllid a'r boblogaeth garcharorion uchel. Gwnaed ymdrechion i sicrhau bod maint y prydau bwyd yn cydymffurfio â gofynion cenedlaethol, gofynion dietegol ac yn rhoi maeth digonol ond awgryma'r adborth gan garcharorion bod lle i wella o ran amrywiaeth, maint ac ansawdd y prydau bwyd ac mae'r carchar wedi cydnabod hyn. Roedd y gegin a'r ardaloedd storio bwyd wedi eu dylunio gyda llai o boblogaeth garcharorion mewn golwg – mae ehangu'r ardaloedd paratoi a storio bwyd yn rhan o gynlluniau ehangu fydd yn dechrau yn 2026.

## 5.2 Gwahanu

Yn yr YOI, mae llai o blant wedi cael eu gwahanu a lleihad hefyd wedi bod yn hyd y cyfnod gwahanu.

Mae gan yr uned gofal a gwahanu oedolion (Phoenix) 24 o gelloedd, yn cynnwys 5 gyda chamerâu.

- Gwahanir carcharorion fel arfer am dorri rheolau trefn, cyfyngiadau'n dilyn gwrandawiadau dyfarnu, neu am fethu sganiau corff wrth gael eu derbyn.
- Mae'n ymddangos bod rhai carcharorion yn treulio amser yn fwriadol yn Phoenix gan gam-weld hyn fel llwybr i'w trosglwyddo i garchardai eraill.
- Ymddengys bod y Gwrandawiadau Dyfarnu a'r adolygiadau gwahanu sydd wedi cael eu monitro gan aelodau'r Bwrdd yn deg.
- Er y tu allan i'r cyfnod adrodd hwn, mae'n werth nodi bod asesiadau anghenion addysg yn cael eu cwblhau yn yr uned wahanu erbyn hyn, ynghyd â help wedi'i deilwrio – er enghraifft sgiliau darllen ayyb.

Mae'r uned carcharu mwy diogel (SCU) yn cynnwys 16 cell, i gyd gyda chamerâu, ar gyfer achosion cymhleth fel problemau iechyd meddwl difrifol neu hunan-niweidwyr cyson.

## 5.3 Y berthynas rhwng staff a charcharorion, gweithwyr allweddol

Yn gynnar yn 2024, roedd y berthynas rhwng staff a charcharorion yn HMP Parc yn wynebu problemau mawr, oedd efallai'n cael ei waethygu gan ddiffyg gweithwyr allweddol. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, lansiodd y carchar ymchwiliadau i ymddygiad amhroffesiynol gan staff a arweiniodd at nifer o staff yn gadael y busnes. Hefyd, cafwyd adroddiadau o fwlio a pherthnasoedd amhriodol rhwng rhai staff a charcharorion, gan waethygu'r ymddiriedaeth ymhellach rhwng y ddau grŵp. Soniodd carcharorion am y pethau hyn wrth aelodau.

Ers hynny mae mesurau wedi eu cyflwyno i ddelio gyda, a gwella'r sefyllfa, gan gynnwys cael gwared ar rai staff, mwy o hyfforddiant a chydweithredu'n agosach ag awdurdodau

allanol fel yr heddlu.

Dros y cyfnod adrodd, mae HMP Parc wedi parhau i weithredu rhaglen o recriwtio a hyfforddi ac mae nifer y staff bellach wedi cynyddu.

### 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Dros y cyfnod adrodd, mae'n ymddangos bod HMP Parc wedi gweithio ar fesurau i drin carcharorion yn decach a chynnig mwy o gyfle cyfartal iddynt, er bod heriau'n parhau. Noda'r Bwrdd fod y carchar yn gweithio i greu amgylchedd mwy cynhwysol drwy fynd i'r afael â gwahaniaethu. Er enghraifft:

- Mae HMP Parc wedi sefydlu tîm pêl-droed o garcharorion LGBTQ+, sydd wedi derbyn canmoliaeth ar draws Cymru a thu hwnt.
- Mae'r carchar wedi gweithredu "Cytundeb Carcharorion" i herio pryfocio negyddol a homoffobia gan greu system bydis i groesawu carcharorion LGBTQ+ newydd.
- Gallai carcharorion a deimlai bod rhywun wedi gwahaniaethu yn eu herbyn lenwi ffurflen ryportio gwahaniaethu (DIRF) fel y gallai'r carchar ymchwilio iddo. Roedd adolygiadau DIRF yn cael eu dosbarthu gan y Cyfarwyddwr. Roedd 130 o achosion DIRF dros y cyfnod adrodd, a 77 yn y chwe mis diwethaf.
- Dylid nodi er i'r IMB dderbyn dros 600 o Geisiadau gan garcharorion yn ymwneud â materion eraill (colli eiddo wrth gael eu trosglwyddo i HMP Parc yn bennaf), nid oedd un yn ymwneud â Chydraddoldeb.

### 5.5 Cymorth ffydd a bugeiliol

Yn 2024, roedd cymorth ffydd a bugeiliol yn HMP Parc yn parhau i fod yn rhan hanfodol o fywyd carcharorion. Sylwyd fod y tîm caplaniaeth aml-ffydd yn darparu arweiniad, gofal bugeiliol a lles ysbrydol i garcharorion o amrywiol grefyddau a chredoau. Cynhaliwyd sesiynau addoli, dwysfyfyrio a gweddïo rheolaidd, gyda chyfleoedd i wneud astudiaethau crefyddol. Ymddengys bod y tîm wedi chwarae rôl yn cefnogi carcharorion mewn argyfwng. Rhoddwyd cymorth i garcharorion yn ystod gwyliau crefyddol fel Ramadan ac Eid.

### 5.6 Cynllun cymhellion

Mae'r cynllun cymhellion wedi cael ei ddefnyddio'n amlach dros y cyfnod adrodd hwn, ar ôl y drefn anffurfiol yn ystod Covid-19. Ym misoedd cyntaf y cyfnod adrodd, barnodd y Bwrdd y gallai'r cynllun fod wedi cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i osgoi gwrandawiadau dyfarnu a gwobrwyo ymddygiad da, ond roedd hyn yn ymddangos i fod wedi digwydd yn yr ail hanner.

### 5.7 Cwynion

Fel yn y flwyddyn flaenorol, y testunau cwyn mwyaf oedd gofal iechyd, rheoli dedfrydau, ac eiddo. Ar y cyfan roedd y carcharorion yn adrodd bod eu cwynion wedi cael sylw mewn amser rhesymol.

### 5.8 Eiddo

Derbyniwyd 132 o Geisiadau am eiddo yn ystod blwyddyn adrodd 2023/24, i fyny o 38 yn ystod blwyddyn adrodd 2022/23. **Fodd bynnag roedd y rhan fwyaf, sef 127, yn ymwneud â throsglwyddo rhwng carchardai - aeth nifer y ceisiadau eiddo'n ymwneud â'r carchar ei hun i lawr** o 15 i 5.

Fel y gwelwn o'r ffigurau uchod, er bod Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion diwygiedig wedi'i gyflwyno yn Awst 2022, nid oes tystiolaeth bod y sefyllfa wrth drosglwyddo eiddo gyda charcharorion wedi gwella.

# 6. Iechyd a lles

## 6.1 Gofal iechyd yn gyffredinol

Dros y cyfnod adrodd, gwelsom heriau a gwelliannau o ran iechyd a lles carcharorion yn HMP Parc. Mae'r carchar wedi gweithio i ddarparu gwasanaethau deall trawma i gefnogi carcharorion gyda phrofiadau niweidiol mewn plentyndod (ACE). Fodd bynnag roedd gorlenwi'n cyflwyno heriau gan effeithio ar amodau byw'n gyffredinol a gwaethygu problemau iechyd meddwl.

Roedd yr amseroedd aros am ambiwlans brys ac apwyntiadau meddyg teulu'n aml yn rhy hir ac nid oedd digon o staff nyrsio. Fodd bynnag, erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd mynediad at ofal iechyd wedi gwella ar ôl penodi ymarferydd meddygol ychwanegol.

## 6.2 Gofal iechyd corfforol

Yn 2024, roedd gofal iechyd corfforol carcharorion yn HMP Parc wedi wynebu nifer o heriau. Roedd y carchar yn parhau i ddarparu gofal meddygol, gan gynnwys gofal lliniarol i garcharorion hŷn, ond roedd problemau sylweddol yn ymwneud â marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau, a lles carcharorion yn gyffredinol. Gwnaed ymdrechion sylweddol i wella diogelwch a chadernid a **noda'r Bwrdd nad oedd unrhyw achosion marwolaeth annaturiol i bob golwg rhwng Mehefin a Medi 2024.**

## 6.3 Iechyd meddwl

Yn 2024, wynebodd y ddarpariaeth iechyd meddwl yn HMP Parc nifer o heriau, yn enwedig yn ymwneud ag asesiadau ADHD er yr ymdrechion i wella gwasanaethau. Mae'r carchar wedi parhau i roi sylw i iechyd meddwl drwy'r broses ACCT, gan roi cymorth i garcharorion gyda risg o hunan-niwed neu hunanladdiad. Fodd bynnag, roedd oedi sylweddol gyda chael gafael ar welyau iechyd meddwl diogel yn y gymuned, llawer hirach na'r aros cyfartalog cenedlaethol.

## 6.4 Gofal cymdeithasol

Roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol yn HMP Parc yng ngofal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, oedd wedi cymryd drosodd o gwmni preifat, G4S Health Services. Roedd y cyngor yn darparu tua 100 awr o ofal yr wythnos yn cefnogi carcharorion ag anghenion amrywiol fel dementia, Clefyd Huntington a chanser.

Er yr ymdrechion hyn, roedd amgylchedd y carchar yn cyflwyno heriau unigryw fel diffyg cyfleusterau ar gyfer carcharorion anabl neu sâl a methu â chael mynediad at garcharorion oherwydd blaenoriaethau diogelwch a chyfyngu i gelloedd.

## 6.5 Amser allan o'r gell, y gyfundrefn

Dros y cyfnod adrodd, roedd HMP Parc wedi hwyluso cyfnodau helaeth o amser y tu allan i'r gell. Roedd yr amser hwn yn rhoi cyfle i garcharorion wneud amrywiol weithgareddau, cymdeithasu a chymryd rhan mewn rhaglenni adsefydlu a lles.

## 6.6 Adsefydlu cyffuriau ac alcohol

Dros y cyfnod adrodd, roedd HMP Parc wedi ehangu ei ddefnydd o naloxone, meddyginiaeth gwrth-opioid a ddefnyddir i wrthdroi gorddos opioid. Roedd tua 400 o staff, gan gynnwys rheolwyr dyletswydd a staff nos, wedi cael eu hyfforddi i gario a rhoi naloxone yn ystod oriau gwaith. Roedd y rhaglen yn rhan o ymateb y carchar i gyfres o farwolaethau cyffuriau er mwyn gwella canlyniadau drwy roi cymorth 'yn y fan a'r lle' mewn achosion o orddos opioid.

Mae Dyfodol, y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, yn rhan integredig o’r carchar gyda gweithwyr dan oruchwyliaeth yn gweithio i wella canlyniadau i rai sy’n cymryd rhan. Er enghraifft:

- Llai o aildroseddu: Nod Dyfodol yw delio â’r pethau sy’n achosi troseddau cyffuriau ac alcohol a lleihau’r risg o niwed i garcharorion, teuluoedd a chyd-ddioddefwyr drwy ddarparu ymyriadau grŵp therapiwtig ac unigol.
- Cymorth ac adsefydlu: Mae’r gwasanaeth yn canolbwyntio ar leihau niwed, iechyd a lles, iechyd meddwl ac adferiad.
- Adborth positif: Mae carcharorion wedi adrodd profiadau da gyda Dyfodol a bod y cymorth a gawsant wedi rhoi gobaith iddynt.

Gwelsom fod cymorth a chyngor i garcharorion ar gael. Roedd carcharorion newydd yn cael eu sgrinio wrth gyrraedd am gyffuriau ac alcohol ac yn gweld rhagnodwyr clinigol fel bo angen. Cynhaliwyd clinigau asesu camddefnyddio sylweddau dwywaith yr wythnos hefyd.

Mae Dyfodol wedi datblygu grŵp o fentoriaid-garcharorion oedd yn gweithio ar draws y carchar. Roedd y mentoriaid hyn yn frwdfrydig ac yn ymfalchïo yn eu rôl o helpu eraill drwy gyd-hwyluso grwpiau adferiad a chynnig cymorth cryf i garcharorion newydd gyrraedd.

## 7. Cynnydd ac adsefydlu

Gwelodd HMP Parc ganlyniadau cymysg o ran cynnydd ac adsefydlu. Yn gynnar yn y cyfnod adrodd, roedd y gweithgareddau bwriadus yn HMP Parc wedi dirywio. O'r herwydd, er bod y carchar wedi parhau i ddarparu diwylliant cefnogol ac amser rhesymol allan o'r gell, roedd lle i well o ran cael carcharorion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon; fodd bynnag, ymddengys bod y sefyllfa wedi cael ei chywiro erbyn ail hanner y cyfnod adrodd, yn rhannol oherwydd cynnydd yn nifer y staff.

Roedd y carchar yn cynnig nifer o raglenni ar gyfer lleihau aildroseddu fel y cwrs Rhesymu ac Adsefydlu a'r rhaglen Ffocws ar Adsefydlu. Mae'r rhaglenni hyn wedi eu dylunio i ddarparu'r sgiliau sydd ei angen ar droseddwyr i leihau eu risg o aildroseddu a gwella eu rhagolygon gwaith ar ôl eu rhyddhau.

Roedd diwydiannau HMP Parc yn parhau i gynnig ystod o gyfleoedd gwaith mewn meysydd fel:

- Gwaith saer coed a gosod brics
- Gwaith mecanyddol a chydosod
- Glanhau, gan ddarparu cymwysterau cydnabyddedig
- Siop trwsio beics yn cyflenwi beics i blant ysgol, unigolion gyda heriau cludiant, a ffoaduriaid.

**Cynllunio adsefydlu**

Noda'r Bwrdd fod gan reolwr yr Hwb agwedd gefnogol tuag at garcharorion ac yn ymddangos i fod yn wirioneddol falch o'u llwyddiannau.

Gwaith y tîm hwn oedd cwrdd ag anghenion adsefydlu sylfaenol ond hanfodol o ran:

- Cyflogaeth ar ôl rhyddhau
- Tai a lle i fyw
- Hyfforddiant pellach
- Cyfrifon banc
- ID a thystysgrifau geni
- Sesiynau creu CV

.

.

# 8. Gwaith yr IMB

### Ystadegau'r Bwrdd

| | |
|---|---|
| Argymhelliad o ran nifer aelodau'r Bwrdd | 17 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 5 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 2 |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad (Ebrill 2023 – Mawrth 2024) | 393 |

### Ceisiadau i'r IMB

| **Cod** | **Pwnc** | **Ebrill 2023 – Mawrth 2024** | **Ebrill 2022 – Mawrth 2023** |
|---|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, cyfleusterau toiled / ymolchi | 17 | 5 |
| B | Disgyblaeth gan gynnwys gwrandawiadau dyfarnu, cynllun cymhellion, sancsiynau | 10 | 13 |
| C | Cydraddoldeb | 0 | 8 |
| D | Gweithgareddau bwriadus gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser allan o'r gell | 34 | 35 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, diogelu'r cyhoedd, cyfyngiadau | 46 | 27 |
| E2 | Cyllid gan gynnwys taliadau, arian preifat, gwariant | 43 | 11 |
| F | Bwyd a cheginau | 41 | 22 |
| G | Iechyd gan gynnwys corfforol, meddyliol a gofal cymdeithasol | 79 | 19 |
| H1 | Eiddo yn y sefydliad | 5 | 15 |
| H2 | Eiddo wrth drosglwyddo neu mewn sefydliad arall | 127 | 23 |
| H3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalogs | 8 | 6 |
| I | Rheoli dedfrydau gan gynnwys HDC, ROTL, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio | 93 | 9 |
| J | Pryderon staff / carcharorion gan gynnwys bwlio | 47 | 28 |
| K | Trosglwyddiadau | 2 | 17 |
| L | Amrywiol | 54 | 27 |
| | Cyfanswm y ceisiadau | **606** | **265** |

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored Fersiwn 3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, rhaid i chi ofyn am ganiatâd pwy bynnag sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn imb@justice.gov.uk